# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018

**2018 dccc 5**

*Gorfodi*

## 14 Gwarant i fynd i annedd

(1) Caiff ynad heddwch arfer y pŵer yn is-adran (2) mewn perthynas â mangre yng Nghymru a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 2 wedi ei chyflawni yn ardal awdurdod lleol, a

(b) ei bod yn angenrheidiol mynd i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni.

(2) Caiff yr ynad ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi swyddog awdurdodedig i'r awdurdod lleol i fynd i'r fangre, drwy rym os oes angen.

(3) Mae'r warant yn parhau mewn grym tan ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 28(2)**

**I2** A. 14 mewn grym ar 2.3.2020 gan O.S. 2020/175, **rhl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, Adran 14.